

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

CERBYDAU FFLYD A'R DEFNYDD O CCTV A DYFEISIADAU TRACIO GPS

Lluniwyd yr hysbysiad hwn yn unol â Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data a deddfwriaeth berthnasol

Y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth

Lisa Richards – Swyddog Diogelu Data

Sam Bishop – Swyddog Datgelu Data a Chofnodion

Rebecca Walsh - Swyddog Datgelu Data a Chofnodion

Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

Data.Protection@merthyr.gov.uk, 01685 725000



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Dyddiad Creu:	25 Mai 2018
Adran â Chyfrifoldeb:	Gwasanaethau Cymdogol
Rheolwr â Chyfrifoldeb:	Cherylle Evans
Cyfeiriad:	CBSMT, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn darparu gwybodaeth am sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn casglu a phrosesu'ch data personol pan fyddwch yn gyfrifol am yrru cerbyd sy'n berchen i'r Cyngor o'n Hadran Rheoli Fflyd. Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sy'n gyfrifol am benderfynu sut yr ydym yn cadw ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch chi. Mae'n ofynnol ein bod ni o dan ddeddfwriaeth diogelu data yn eich hysbysu chi o'r wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Nid yw'r hysbysiad hwn yn ffurfio rhan o'ch contract cyflogaeth. Mae'n bosib y byddwn yn diweddarau'r hysbysiad hwn ar unrhyw adeg ac os byddwn yn gwneud hynny byddwn yn sicrhau fod copi wedi ei ddiweddarau o'r hysbysiad hwn ar gael i chi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Y mae'n bwysig eich bod chi'n darllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn ynghyd â'n Polisi Safonau Preifatrwydd a hysbysiad preifatrwydd llawn sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth fanwl am sut yr ydym yn prosesu data a chael mynediad at ar ein gwefan.

Mae'r hysbysiad hwn yn benodol berthnasol i fonitro a defnyddio data geowagle a gaiff ei gasglu oddi wrth dracwyr GPS a'r delweddau gaiff eu cipio o CCTV o'r camerâu a osodwyd yn ein cerbydau fflyd.

1. GWYBODAETH BWYSIG A PHWY YDYM NI

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r rheolwr sy'n gyfrifol am eich data personol. Mae'r Cyngor yn cynnwys gwahanol adrannau, a gellir gweld manylion amdanynt ar ein gwefan. Yn yr hysbysiad hwn pan fyddwn yn cyfeirio at yr adran, rydym yn cyfeirio at yr Adran Rheoli Fflyd sy'n gyfrifol am brosesu eich data a fydd yn glir i chi pan gewch fynediad at y gwasanaeth hwn.

Mae'r hysbysiad hwn yn gymwys i gyflogeion y Cyngor sy'n gyrru cerbyd dan berchnogaeth y Cyngor sydd o dan reolaeth y Rheolwr Fflyd. Mae'r Fflyd yn cynnwys y mathau canlynol o gerbydau:

- Ceir
- Faniau Bach

- Faniau mawr
- Pic-yp
- Faniau cefn cawell
- Faniau Tipio
- Trol Ailgylchu
- Trol Gwastraff
- Cerbydau cynnal a chadw Priffyrdd
- Cerbydau amaethyddol a graeanu

Mae gyrwyr ein cerbydau'n cynnwys cyflogeion, gweithwyr asiantaeth, contractwyr, gwirfoddolwyr ac unigolion eraill sydd wedi derbyn awdurdodaeth berthnasol o'r Rheolwr Fflyd.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi penodi Swyddog Diogelu Data a gellir cysylltu â'r Swyddog â'r manylion canlynol:

Mrs. Lisa Richards (Swyddog Diogelu Data)

Cyfeiriad: Tîm Llywodraethiant Gwybodaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful,
Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN
E-bost: data.protection@merthyr.gov.uk
Ffôn: 01685 725000

2. Y DATA A GASGLWN AMDANOCH CHI

Prif ddiben y System Tracio GPS a ffilm CCTV sy'n cael eu casglu o'r cerbydau yw monitro perfformiad ein cerbydau a'u defnyddio fel tystiolaeth mewn unrhyw achos sifil a throeddol a allai gynnwys hawliad yswiriant. Fel arfer bydd y data'n berthnasol i'r cerbyd neu gyflenwyr gwasanaeth ac yn hynny o beth ni fydd yn arwain at adnabod person.

Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd achlysuron pan fydd y wybodaeth a gesglir o'r systemau hyn yn eich adnabod chi. Mae'n bosibl y byddwn yn casglu, defnyddio, cadw a throsglwyddo gwahanol fathau o ddata personol amdanoch chi fel a ganlyn:

- Data adnabod a chyswllt a fydd yn cynnwys eich enw a rhif ffôn. Byddwn hefyd yn cadw copïau o'ch trwydded yrru a fydd yn cynnwys eich dyddiad geni, cyfeiriad a cherbydau y gallwch eu gyrru'n gyfreithlon a ffotograff ohonoch. Byddwn hefyd yn cipio delweddau CCTV ohonoch pan fydd camerâu'r cerbyd yn cael eu gweithredu.
- Data cyflogaeth a fydd yn cynnwys teitl eich swydd ac oriau gwaith.
- Data geowagle sy'n berthnasol i ddata lleoliad a ddarparwyd gan ddyfeisiadau tracio GPS sydd wedi cael eu gosod yn Fflyd y Cyngor. Mae tracio GPS yn defnyddio system tracio cerbyd, sydd yn ddyfais electroneg a osodir mewn cerbyd i alluogi'r Cyngor i dracio lleoliad y cerbyd. Bydd hyn yn berthnasol i unigolyn at ddibenion penodol a osodir allan yn adran 3 isod yn unig.
- Data iechyd yn cynnwys cyflyrau meddygol sy'n berthnasol i'ch gallu i yrru, gall y rhain gynnwys cyflyrau corfforol ac iechyd meddwl.

- Data troseddol os oes gennych euogfarn a restrwyd yn erbyn eich trwydded yrru.

Rydym yn esbonio'r gwahanol ddulliau a ddefnyddir i gasglu'r data hwn amdanoch chi a'r rhesymau pryd y byddem yn defnyddio'r data hwn yn adran 3 isod.

3. SUT YR YDYM YN DEFNYDDIO'CH DATA PERSONOL

Dim ond pan fydd y gyfraith yn ein caniatáu ni i wneud hynny y byddwn yn defnyddio eich data personol. Bydd hyn yn cynnwys y darpariaethau a osodwyd allan yn Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data a ble y bo'n berthnasol Deddf Diogelu Data 2018. Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth personol o dan yr amgylchiadau canlynol:

1. Pan fo angen i ni ryddhau ein cyfrifoldebau fel y'u gosodwyd yn eich contract cyflogaeth a'r polisiau perthnasol a chodau ymarfer a weithredir gan y Cyngor sy'n berthnasol i'ch cyflogaeth.
2. Pan fo angen i ni gydymffurfio â goblygiad cyfreithiol, at ddibenion monitro GPS a CCTV byddwn yn prosesu eich data personol o dan y cyfreithiau canlynol:
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ayyb 1974
Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999
Deddf Traffig Ffordd 1988
Deddf Traffig Ffordd 1991
Deddf Dynladdiad Corfforaethol a Lladdiad Corfforaethol 2007
Cod Ymarfer Camera Gwyliadwriaeth 2013
Deddf Diogelu Rhyddidau 2012
Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984
Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996
3. Mae dyletswydd arnom i ddiogelu eich buddion pe byddai argyfwng neu sefyllfa arall yn digwydd a allai eich rhoi mewn perygl difrifol fel damwain traffig ffordd neu anaf a achoswyd wrth weithredu ein cerbydau.
4. Pan fo'i angen er budd y cyhoedd neu at ddibenion swyddogol fel darparu ffurflenni treth ystadegol i Lywodraeth Cymru, ac er mwyn ein galluogi ni i gyfrannu at yr ymroddiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn ei Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni yng Nghymru a pharhau i gydymffurfio â'r Pwyllgor Targedau Carbon a Newid yn yr Hinsawdd Cymru. Byddwn hefyd yn prosesu data yn unol â thelerau ein Trwydded Gweithredu Cerbyd a Chanllawiau Asiantaeth Cerbyd a Gwasanaethau Gweithredu sef *Public Service Vehicle Operator Licensing - Guide for Operators*.
5. Ble y bo'n angenrheidiol er ein buddion cyfreithiol ein hunain (neu rai trydydd parti) ac nad yw eich buddion a'ch hawliau sylfaenol chi yn goresgyn y buddion hynny.

Mae'n bosibl y byddai achlysuron pan fyddai'n orfodol i ni ddefnyddio data a gafwyd o'n dyfeisiadau tracio at ddibenion na chaiff eu rhestru uchod fel cymorth wrth hawlio yswiriant, er mwyn atal a datgelu trosedd, atal a datgelu twyll a dibenion eraill y mae'n orfodol gyfreithiol i ni eu gweithredu.

Caiff y data geowagle ei gipio mewn fformat siwdonomeiddiol yn erbyn ffob unigol, caiff y rhestr o yrwyr a gofnodir yn erbyn pob ffob ei chadw gan Reolwr y Fflyd. Caiff rhifau'r ffob eu paru â gyrrwr pan fyddwn yn gallu gwneud hynny'n gyfreithlon yn unig. Mae'r Cyngor wedi gosod mewn lle mesurau technegol a sefydliadol i sicrhau fod y wybodaeth hon yn cael ei chadw ar wahân. Ni chaiff unrhyw swyddog y Cyngor ei awdurdodi i gadw na chreu rhestr newydd o yrwyr heb awdurdodiad y Rheolwr Fflyd.

Pan fo'r data geowagle wedi ei gasglu ond heb ei gofnodi yn erbyn y gyrrwr, at ddibenion cyfrifo amseroedd taith neu ddynodi adnoddau llwybr, ni fydd y rheolau uchod yn gymwys gan na chaiff y data hwn ei ddsbarthu fel data personol o dan y diffiniad a ddarparwyd o dan ddeddfwriaeth diogelu data.

Prif ddiben y system CCTV cerbyd yw diogelu ein staff rhag camymddwyn cyhoeddus, i'w ddefnyddio fel tystiolaeth yn erbyn hawlio yswiriant trwy dwyll, ac i ddarparu'r Heddlu â chymorth i ganfod ac atal trosedd ac anhrefn. Gellir defnyddio'r ffilm hefyd i helpu i ddynodi, deall ac erlyn troseddwr. Gall y ffilm gael ei ddefnyddio fel tystiolaeth yn yr enghreifftiau canlynol:

- Darparu tystiolaeth mewn achosion troseddol
- Darparu tystiolaeth mewn achosion sifil
- Darparu tystiolaeth am hawlio yswiriant drwy dwyll
- Atal a lleihau trosedd ac anhrefn
- Archwilio i a datgelu trosedd
- Adnabod tystion
- Er diogelwch ein gyrrwyr cerbydau a'n haelodau o staff
- Er diogelwch y cyhoedd.

Caiff y data sy'n cael ei gipio o'r dyfeisiadau GPS eu cadw ar weinyddwyr y Cyngor yn y system gweithredu UK Telematics.

4. SUT YR YDYM YN RHANNU EICH DATA PERSONOL

Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu eich data personol yn fewnol ar draws Adrannau eraill y Cyngor a hefyd â thrydydd parti allanol a fydd yn cynnwys:

- Yr Adran Gyfreithiol
- Yr Adran Adnoddau Dynol
- Tîm Llywodraethu Gwybodaeth
- Gwasanaethau Cymdogol sy'n cynnwys:
 - Gwasanaethau Amgylcheddol
 - Priffyrdd
 - Gwasanaethau Gwastraff
 - Cynnal a chadw tiroedd
 - Gwasanaethau Profedigaeth
- Archwilio Mewnol
- Adran TGCh
- Adran Yswiriant
- Y Tîm Rheoli Corfforaethol
- Heddlu De Cymru

- Swyddfa Archwilio Cymru
- Llywodraeth Cymru neu gyrff llywodraethol eraill
- Undebau Llafur fel Unison, GMB ac Unite

Mae'n bosibl hefyd y bydd yn ofynnol i ni rannu data ag ymgynghorwyr cyfreithiol allanol, Gwasanaeth Llys sy'n cynnwys Tribiwnlys Cyflogaeth a thrydydd partïon eraill yn unol â'r gyfraith.

Byddwn yn rhannu setiau cyflawn o ddata personol dienw, ystadegol yn flynyddol mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil a dadansoddi ystadegol a berfformiwyd er mwyn arddangos ein cydymffurfiad â'r codau perthnasol, strategaethau a chanllawiau perthnasol. Byddwn hefyd yn adrodd yn ôl am filltiroedd ac allyriadau pob cerbyd yn fewnol yn chwarterol gan y caiff ei ddefnyddio fel dangosydd perfformiad mesuradwy ar gyfer effeithlonrwydd.

Ni fyddwn yn trosglwyddo eich data i unrhyw wledydd y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop. Os fyddwn yn gwneud hynny byddwn yn eich hysbysu cyn gynted â phosibl a gallwch ddisgwyl yr un faint o ddiogelwch mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol.

5. AM BA MOR HIR FYDDWN NI'N DEFNYDDIO EICH DATA PERSONOL

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol am gyhyd ag sy'n angenrheidiol i gyflawni'r dibenion y'i casglwyd ar eu cyfer yn unig, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd yn ôl.

O dan delerau ein Trwydded Gweithredwr byddwn yn cadw cofnodion cerbyd am o leiaf ddwy flynedd, os yw'r data'n cael ei ddefnyddio at ddibenion cyflogaeth caiff ei gadw yn unol â chyfnodau cadw ein Hadrannau Adnoddau Dynol. Ceir manylion pellach ynghylch sut rydym yn defnyddio data cyflogai yn ein Hysbysiad Preifatrwydd Cyflogai sydd ar gael ar ein gwefan.

Mae manylion am gyfnodau cadw ar gyfer gwahanol agweddau o'ch gwybodaeth bersonol ar gael yn ein Polisi Rheoli Cofnodion sydd ar gael ar ein gwefan (www.merthyr.gov.uk).

6. SUT FYDDWN NI'N CADW EICH DATA PERSONOL YN DDIOGEL

Rydym wedi gweithredu mesurau diogelwch priodol i atal eich gwybodaeth bersonol rhag mynd ar goll yn ddamweiniol, rhag cael ei defnyddio neu rhag bod mynediad ati mewn modd diawdurdod, neu ei haddasu neu ddatgelu. Rhaid i'r holl staff sy'n cael mynediad at ein systemau cyfrifiadurol hefyd gwblhau hyfforddiant gorfodol o ran diogelu data a diogelu gwybodaeth. Mae'r hyfforddiant hwn yn cael ei gynnwys yn ein rhaglen hyfforddiant ar-lein Bobs Business a rhaid ei gwblhau yn flynyddol.

Yn ychwanegol, rydym yn cyfyngu mynediad at eich gwybodaeth bersonol i'r cyflogeion hynny sydd ag angen busnes i wybod. Mae'n ofynnol cael enw defnyddiwr i'n systemau ac mae'r cyfrineiriau wedi eu diogelu. Bydd y swyddogion awdurdodedig yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn dilyn ein cyfarwyddyd yn unig ac maen nhw'n amodol ar ddyletswydd cyfrinachedd. Mae disgwyl i bob aelod o staff ddelio â data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Gallai unrhyw swyddog nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion hyn fod yn droseddol atebol am brosesu data personol yn amhriodol.

Rydym wedi gosod polisiau a gweithdrefnau yn eu lle i ddelio ag unrhyw dorcyfraith o ran diogelu a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr cymwys o dorcyfraith honedig pan fydd yn gyfreithiol ofynnol i ni wneud hynny.

Mae Swyddog Diogelu Gwybodaeth y Cyngor yn gyfrifol am archwilio i unrhyw ddiffyg cydymffurfio neu gamddefnydd o systemau'r Cyngor a bydd yn sicrhau fod unrhyw gyflogai sy'n cwmpo'n is na'n safonau diogelu yn cael y sylw priodol.

Caiff dorcyfraith o ran Polisiau Diogelu Data a Gwybodaeth y Cyngor ei ystyried o dan y Polisiau a Gweithdrefnau Disgyblaethol.

7. EICH HAWLIAU CYFREITHIOL

O dan rai amgylchiadau, mae gennych hawliau dan gyfreithiau diogelu data mewn perthynas â'ch data personol gan gynnwys yr hawl i dderbyn copi o'r data personol yr ydym yn ei gadw amdanoch chi caiff yr hawliau hyn eu manylu yn yr hysbysrwydd preifatrwydd cyflawn. Mae gennych hefyd yr hawl i gwyno ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, awdurdod goruchwyliol y DU ar gyfer materion diogelu data:

Cyfeiriad: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru), 2^{il} Lawr, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd, CF10 2HH

E-bost: casework@ico.org.uk

Ffôn: 029 2067 8400

8. MANYLION PELLACH

Os ydych chi'n chwilio am ragor o wybodaeth am sut yr ydym yn prosesu eich data personol yn cynnwys diogelu data, cadw data a gwybodaeth bellach am ein sail gyfreithiol i brosesu, mynnwch weld ein polisi preifatrwydd cyflawn. Gallwch hefyd gael gwybodaeth yn uniongyrchol o wefan y Swyddog Comisiynu Gwybodaeth, www.ico.org.uk.